

# Y Bil Masnach:

## Adroddiad ar gydsyniad deddfwriaethol a materion cysylltiedig

Mawrth 2018

### Crynodeb

Ar adeg yr adroddiad, mae'r Cyfnod Pwyllgor o graffu ar y Bil Masnach wedi dod i ben yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ein barn ni ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ('y memorandwm') sy'n ymwneud â Bil Masnach Llywodraeth y DU ('y Bil').

Rydym hefyd yn tynnu sylw at rai materion ychwanegol sy'n ymwneud â'r Bil sydd wedi codi yn ystod ein gwaith craffu.

Ar hyn o bryd, ni allwn argymhell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn rhoi ei gydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru.

Byddwn yn ailystyried ein safbwynt ac yn cyhoeddi adroddiad atodol pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu diwygio yn ddiweddarach ym mhroses Seneddol y DU.



## 1. Cydsyniad deddfwriaethol

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

### 1.1. Y cefndir

#### Cyflwyniad

1. Gosodwyd y Bil Masnach gerbron Tŷ'r Cyffredin gan Lywodraeth y DU ar 7 Tachwedd 2017. Cwblhaodd y Bil Masnach y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Chwefror 2018. Nid oes dyddiad wedi cael ei bennu eto ar gyfer y Cyfnod Adrodd. Y Bil yw'r trydydd mewn cyfres o Filiau sy'n gysylltiedig â Brexit a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Mae'r Bil yn ymwneud yn agos â'r Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol) sy'n aros am y Cyfnod Adrodd ar hyn o bryd yn Nhŷ'r Cyffredin a Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) sy'n aros am y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
2. Mae masnach yn gymhwysedd cyfyngol i'r Undeb Ewropeaidd (UE), sy'n golygu bod yr UE yn cynnal yr holl drafodaethau masnach ar ran ei Haelod-wladwriaethau ac na chaniateir i'r Aelod-wladwriaethau drafod cytundebau masnach unigol â gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. Mae'r Bil Masnach a'r Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol) yn ceisio darparu Gweinidogion y DU a Gweinidogion Datganoledig, mewn rhai amgylchiadau, â phwerau fframwaith i sefydlu cyfundrefn fasnachu annibynnol ar gyfer y DU ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod angen Cydsyniad Deddfwriaethol gan y deddfwrfeydd datganoledig ar gyfer y Bil Masnach ond nid ar gyfer y Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol) gan fod hyn yn ymwneud â phwerau dros dollau tramor a chartref, cwotâu allanol ac ymchwiliadau rhwymedïau masnach.

## Amserlen

3. Mae'r amserlen isod yn dangos cynnydd y Bil a'n trafodaethau hyd yma:

### Amserlen

9 Hydref 2017 - cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn *Preparing for our future UK trade policy*.

7 Tachwedd 2017 - Cafodd y Bil Masnach ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin.

9 Tachwedd 2017 - Cafodd y Bil Masnach ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.

4 Rhagfyr 2017 - Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol seminar anffurfiol ar y goblygiadau i Gymru o'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn ystyried polisi masnach, gan gynnwys y Bil Masnach.

7 Rhagfyr 2017 - gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Masnach gerbron y Cynulliad.

18 Ionawr 2018 - cyhoeddodd Llywodraethau Cymru a'r Alban eu gwelliannau i'r Bil Masnach.

23 Ionawr 2018 - 1 Chwefror 2018 - bu Pwyllgor Bil Cyhoeddus yn craffu ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin. Cafodd gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraethau Cymru a'r Alban eu trechu.

12 Chwefror 2018 - cafodd y Pwyllgor, mewn cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC, mewn perthynas â'r Bil Masnach.

## Beth yw'r Bil Masnach?

4. Mae'r Bil Masnach yn rhan o'r fframwaith sy'n cael ei sefydlu i ganiatáu i'r DU ymrwymo i gytundebau masnach â Thrydydd Gwledydd sydd â chytundebau o'r fath â'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.

5. Er bod y fframwaith hwn yn galluogi dull o'r fath, nid yw'n sicr o bell ffordd y byddai'r dull hwn yn bosibl gan y bydd yn destun trafodaethau a chytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a'r Trydydd Gwlad, gyda'r cefndir posibl y byddai'r UE yn

gorfod ailnegodi ei chytundebau masnach â'r Trydydd Gwledydd hyn ar yr un pryd.

**6.** Mae'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil yn nodi

“The UK currently enters into commitments in international trade agreements as a member of the European Union (EU). As a member of the EU, the UK has been party to the EU's trade agreements with third countries. The Government has committed to providing continuity in the UK's existing trade and investment relationships with these third countries.”

**7.** Aiff y Nodiadau Esboniadol ymlaen i nodi:

“[...] the Trade Bill will provide the UK Government with the powers to make any changes to domestic legislation that are necessary to ensure these agreements, once signed by both parties, are fully implemented and can be ratified.”

**8.** Mae'r Bil Masnach yn gymharol fyr ac yn cynnwys 12 cymal. I grynhoi, mae'n darparu:

- Pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Datganoledig wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y gallai fod ei hangen i weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau;
- Pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Datganoledig wneud newidiadau i gyfraith ddomestig sydd ei hangen i weithredu elfennau o unrhyw gytundebau, nad ydynt yn rhai tariff, y mae Llywodraeth y DU yn cytuno arnynt â gwledydd trydydd parti sydd eisoes wedi arwyddo cytundeb masnach â'r UE;
- Ar gyfer sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach; a
- Phwerau i Gyllid a Thollau EM gasglu a rhannu data a gwybodaeth ychwanegol am allforwyr y DU.

## 1. 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

### Cyflwyniad

9. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('y Memorandwm'), mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei barn fod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer Rhan 1 Cymalau 1, 2, 3, 4 ac Atodlenni 1, 2 a 3. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.

### CASGLIAD

---

**Casgliad 1.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer Rhan 1 o'r Bil a'i Atodlenni cysylltiedig. Mae'r safbwynt hwn yn cyd-fynd â barn Llywodraeth y DU o'r darpariaethau y mae angen cydsyniad arnynt. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn.

---

10. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru, ym mharagraff 16 o'r Memorandwm, yn derbyn bod Bil Masnach yn angenrheidiol:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod deddfwriaeth yn angenrheidiol er mwyn darparu eglurder a sicrwydd i fusnesau a defnyddwyr mewn perthynas â masnach wrth i ni ymadael â'r UE."

11. Mae'r Memorandwm yn dod i'r casgliad y bydd argymhelliad Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai'r Cynulliad gydsynio i'r darpariaethau hyn yn y Bil yn dibynnu ar ymateb Llywodraeth y DU i welliannau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru:

"Rydym yn derbyn y gallai achosion godi pan fyddai'n synhwyrol i Senedd y DU ddeddfu ar feysydd datganoledig, ond dylai hynny ddigwydd gyda chydsyniad y Llywodraethau Datganoledig yn unig, a dylid nodi hynny'n glir ar wyneb y Bil. Ymhellach, dylid cael cydraddoldeb rhwng y pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion y Goron ac, mewn cysylltiad â meysydd datganoledig, i Weinidogion Cymru. Mae'r cyfyngiadau ychwanegol a roddir ar Weinidogion Cymru yn y cyswllt hwn yn amhriodol. Bydd angen ystyried a ddylid rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn ai peidio yng nghyd-destun yr ymateb i'r gwelliannau a gyflwynir i ymdrin â'r materion hyn."

**12.** Ers drafftio'r Memorandwm hwn, cafodd pob un o'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru eu trechu yn ystod y Cyfnod Pwyllgor o graffu ar y Bil Masnach yn Nhŷ'r Cyffredin.

## **Crynodeb o'r darpariaethau sydd angen cydsyniad – Cymalau 1, 2 a 3**

Cymal 1: Y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau

---

**13.** Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau ('y GPA').

Cymal 2: Pwerau i weithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydydd gwledydd sydd eisoes â chytundebau o'r fath â'r UE.

---

**14.** Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydydd gwledydd sy'n cyfateb i rai mathau o gytundebau UE / trydydd gwlad sy'n bodoli eisoes.

Cymal 3 ac Atodlenni 1, 2 a 3

---

**15.** Mae Cymal 3 yn darparu ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaethau y gellid eu gwneud mewn rheoliadau a wnaed o dan gymalau 1 a 2. Mae Cymal 3 hefyd yn gweithredu Atodlenni 1-3. Mae Atodlen 1 yn rhoi cyfyngiadau ar arfer pwerau Gweinidogion Cymru. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sydd i'w gwneud yn berthnasol i reoliadau a wneir o dan gymalau 1 a 2. Mae Atodlen 3 yn cynnwys eithriadau i gyfyngiadau yn y setliad datganoli.

## **Materion a godwyd mewn perthynas â'r darpariaethau sydd angen cydsyniad**

Barn Llywodraeth Cymru

---

**16.** Fel y gwelwn uchod, nododd Llywodraeth Cymru nifer o bryderon sydd ganddi o ran y darpariaethau sydd angen cydsyniad.

**17.** Cafodd rhestr o welliannau a nodiadau esboniadol i'r gwelliannau eu cyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar 18 Ionawr 2018. Byddai'r gwelliannau yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban cyn defnyddio'r pwerau cydamserol a ddarperir i Weinidogion y DU yn y Bil i ddeddfu mewn meysydd datganoledig;

- Dileu'r cyfyngiadau sy'n gwahardd Gweinidogion Cymru a'r Alban rhag addasu cyfraith uniongyrchol yr UE a gaiff ei newid gan Fil yr UE (Ymadael) i gyfraith y DU; a
- Dileu'r gofyniad i Lywodraethau Cymru a'r Alban gael cydsyniad Gweinidogion y DU cyn defnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt gan y Bil i gyflwyno rheoliadau a fyddai'n dod i rym cyn y diwrnod gadael neu sy'n cynnwys trefniadau cwota. Yn lle hynny, byddai'r gwelliannau yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraethau Cymru a'r Alban ymgynghori â Gweinidogion y DU.

**18.** Yn ogystal, mae Llywodraethau Cymru a'r Alban yn cynnig gwelliannau i'r ddarpariaeth machlud a gynhwysir yng Nghymal 2 y Bil ac i benodi aelod anweithredol i fwrdd yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach a gaiff ei greu o dan Ran 2 y Bil.

**19.** Byddwn yn mynd i'r afael â'r gwelliannau i'r cymal machlud a'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach wrth ystyried materion ehangach sy'n ymwneud â'r Bil yn ail ran yr adroddiad hwn.

#### Ein barn

---

**20.** Rydym yn rhannu rhai o bryderon Llywodraeth Cymru ac mae gennym feysydd sy'n peri pryder nad yw gwelliannau Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â nhw.

**21.** Mae ein pryder cyntaf yn ymwneud â **phriodoldeb y pwerau** arfaethedig.

**22.** Fel gyda Bil yr UE (Ymadael), mae'r pwerau a roddir i Weinidogion yn bwerau i wneud darpariaeth fel y maent yn "ystyried sy'n briodol". Mae'r ffurfiad hwn yn codi yr un materion â'r prif bwerau gweinidogol ym Mil yr UE (Ymadael), ac yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hwy drwy gynnig gwelliant i gyfyngu ar y pwerau a roddir i Weinidogion i wneud darpariaeth fel sy'n "hanfodol" yn ein llythyr at Aelodau Seneddol Cymru ar Fil yr UE (Ymadael).

**23.** Wrth roi tystiolaeth ar **12 Chwefror 2017**, cytunodd Mr Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, y dylai'r pŵer fod yn fwy tynn, er iddo nodi y byddai'n well ganddo i'r disgrisiwn a oedd ar gael fod wedi ei gyfyngu "yn ôl yr angen".

## CASGLIAD

---

**Casgliad 2.** Mae'r pwerau a gynigir i Weinidogion Cymru wedi'u fframio'n rhy eang. Ein dewis ni fyddai eu gweld yn cael eu diwygio i'w cyfyngu i wneud darpariaeth sydd ond "yn hanfodol".

---

**24.** Mae ein hail bryder yn ymwneud â defnyddio **pwerau cydamserol** ac yn cydfynd i raddau â barn Llywodraeth Cymru.

**25.** Mae'r pwerau a gynigir i Weinidogion Cymru i gael eu dal yn gydamserol â Gweinidogion y Goron. Gallai'r pwerau cydamserol hyn gael eu harfer gan Weinidog y Goron heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

**26.** Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddarpariaeth pwerau cydamserol i Weinidogion y DU yn y Bil, mae wedi cynnig gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol cael cydsyniad Llywodraeth Cymru cyn y gellir defnyddio'r pwerau hyn. Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mr Ken Skates AC, pam roedd Llywodraeth Cymru ond yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ac nid y Cynulliad i ddefnyddio pwerau cydamserol gan Weinidogion y DU.

**27.** Wrth ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

"It's a judgment call at the end of the day, this is. I think there's a strong argument for both, but, ultimately, the decision was made against a backdrop of a clock that is completely out of our control. Speed and time are in short supply, and I didn't feel it would be particularly helpful to introduce another procedure. Therefore, I made the decision that I did, but I do accept that, equally, there is a strong argument in favour of the whole Assembly having a role in this."

**28.** Wrth ymateb ym Mhwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, i'r gwelliannau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gael cydsyniad Llywodraethau Cymru a'r Alban cyn defnyddio eu pwerau cydamserol, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Fasnach Ryngwladol, y Gwir Anrh Gregg Hands AS:

"We will not normally use these powers to amend legislation in devolved areas without the consent of the relevant devolved Administration, and we will certainly never do so without first consulting them. It is crucial to understand that".



**29.** Ymhellach, dywedodd y Gweinidog:

“We made a commitment in the trade White Paper to not normally use these powers in areas of devolved competence without consultation. I repeat that commitment to continuing that consultative process as we go forward. That commitment can be heard loud and clear.”

**30.** Nid oedd y Gweinidog yn cytuno bod angen gwneud yr ymrwymiad hwn ar wyneb y Bil.

**31.** Fel y dywedasom yn ein hymateb i Fil yr UE (Ymadael), ein dewis yw i bwerau o'r fath gael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn unig. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod nad yw Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU yn rhannu'r farn hon.

## CASGLIAD

---

**Casgliad 3.** Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bwerau a ddelir yn gydamserol rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion gael cydsyniad. Er bod cynnig Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol cael cydsyniad gweithredol ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn yn well na'r absenoldeb o drefniadau cydsyniad ar hyn o bryd, byddai'n well gennym weld diwygio'r Bil Masnach i'w gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Cynulliad hefyd i ddefnyddio'r pwerau hyn.

---

**32.** Mae ein trydydd pryder yn ymwneud â'r **cyfyngiadau a roddir ar y defnydd o bwerau a gynigir i Weinidogion Cymru.**

**33.** Mae'r cyfyngiadau ar y defnydd o bwerau a gynigir i Weinidogion Cymru yng Nghymalau 1 a 2 o'r Bil yn adlewyrchu'r rhai a oedd i'w gosod arnynt gan Fil yr UE (Ymadael), fel y'i cyflwynwyd.

**34.** Fel yn y Bil hwnnw (pan y'i cyflwynwyd), mae gwaharddiad penodol ar Weinidogion Cymru rhag defnyddio pwerau Cymal 1 neu 2 i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir neu ffurfiau eraill o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwysadwy (a gwmpesir gan Gymal 4 Bil yr UE (Ymadael)); mae hyn yn cynnwys gwaharddiad ar wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n anghyson â'r modd y mae Gweinidogion y DU wedi addasu'r gyfraith honno.

**35.** Mae gwelliannau a wnaed i Atodlen 2 o Fil yr UE (Ymadael) yn y **Cyfnod Adrodd** yn Nhŷ'r Cyffredin yn awgrymu'r posibilrwydd y gallai Gweinidogion Cymru addasu rhai agweddau ar ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir neu

---

ffurfiau eraill o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwysadwy sydd wedi cael eu 'rhyddhau'n ôl' i gymhwysedd datganoledig Cymru trwy'r broses Gorchymyn yn y Cyngor a gynigiwyd yn y Bil hwnnw.

## Ein barn

---

**36.** Wrth bennu ein hamcanion ar gyfer gwella Bil yr UE (Ymadael), rydym wedi bod yn glir ein bod yn credu y dylai Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad fod yn gyfrifol am gywiro pob agwedd ar gyfraith yr UE a gedwir mewn meysydd datganoledig.

**37.** O leiaf, credwn y bydd angen diwygio'r Bil Masnach i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed eisoes i Fil yr UE (Ymadael) yn y maes hwn.

## CASGLIAD

---

**Casgliad 4.** Rydym yn gobeithio y caiff Bil yr UE (Ymadael) ei ddiwygio i ganiatáu i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad chwarae eu rhan wrth addasu pob agwedd ar gyfraith yr UE a gedwir. Pe bai diwygiadau o'r fath yn cael eu gwneud, dylid diwygio'r Bil Masnach i adlewyrchu hyn.

---

**38.** Yn gyson â Bil yr UE (Ymadael), hefyd, mae cyfyngiadau ar allu Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau o dan Gymal 2 ynghylch 'trefniadau cwota' a chyfyngiadau ar allu Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau o dan Gymal 2 cyn y diwrnod gadael; byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU ar gyfer y rheoliadau hyn.

**39.** Diffinnir 'trefniadau cwota' yn yr un modd ag ym Mil yr UE (Ymadael), sef trefniadau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, rhannu cyfrifoldeb yn y DU, neu ardal yn cynnwys y DU, o rwymedigaeth ryngwladol, neu unrhyw hawl neu fudd arall sy'n deillio o rwymedigaeth o'r fath, os mai'r rhwymedigaeth yw cyrraedd canlyniad a ddiffinnir drwy gyfeirio at swm, neu os yw'r budd wedi'i ddiffinio felly.

**40.** Byddai enghreifftiau'n cynnwys rhwymedigaethau i beidio â physgota mwy na swm penodol o rywogaethau penodol mewn dyfroedd penodol, neu beidio â chaniatáu mwy na swm penodol o gemegyn penodol i fod yn bresennol mewn rhai cyrff penodol o ddŵr.

**41.** Mae'r gwelliannau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys gwelliant sy'n disodli'r ddyletswydd i ofyn am gydsyniad Gweinidogion y Goron â dyletswydd i

ymgyngori â Gweinidogion y Goron cyn arfer pwerau sy'n ymwneud â threfniadau cwota neu cyn gwneud rheoliadau cyn y diwrnod gadael.

## CASGLIAD

---

**Casgliad 5.** Mae safbwynt Gweinidogion Cymru yn gyson ag egwyddor ein hamcanion ar gyfer gwella Bil yr UE (Ymadael) ac, o ganlyniad, rydym yn cefnogi diwygio'r Bil ar sail yr hyn a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

---

**42.** Mae ein pedwerydd pryder yn ymwneud â **gweithdrefn graffu** a ragnodir yn y Bil Masnach.

**43.** Mae'r gweithdrefnau craffu ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU a'r Gweinidogion Datganoledig wedi'u nodi ar wyneb y Bil Masnach yn Atodlen 2. Bydd pob is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**44.** Er y bydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad yn ystyried hyn yn fanylach, ein barn ni yw y dylai'r Cynulliad benderfynu ar y weithdrefn i'w chymhwyso i bwerau a gaiff eu dirprwyo i Weinidogion Cymru.

**45.** Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, byddai Cymal 1 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU i weithredu unrhyw newidiadau yn y gyfraith ddomestig sy'n gysylltiedig â'r DU yn dod yn Aelod annibynnol o Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau. Ar hyn o bryd mae'r DU yn rhan o'r cytundeb yn rhinwedd ei haelodaeth o'r UE. Byddai hyn yn cynnwys y pŵer i weithredu newidiadau i atodlen ymrwymiadu'r DU o dan y Cytundeb. Mae'r rhestr bresennol o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a gaiff eu cwmpasu gan yr Atodlenni yn gymharol fyr o'i chymharu â gwledydd eraill y DU. Byddai'n ofynnol i unrhyw gorff a ychwanegwyd agor meysydd ychwanegol o'u gweithgareddau caffael i gystadleuaeth ryngwladol.

**46.** Byddai rheoliadau yn gwneud newidiadau o'r fath ond yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**47.** Pan holwyd a oedd hyn yn briodol, cytunodd Mr Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Chyllid, y dylai'r rheoliadau hyn fod yn destun gweithdrefn gadarnhaol.

## CASGLIAD

---

**Casgliad 6.** Dylai'r pŵer a gynigir i Weinidogion Cymru o dan Gymal 1 o'r Bil Masnach fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

---

**48.** Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai nod Cymal 2 y Bil yw bod y cytundebau masnach presennol sydd gan yr UE â gweddill y byd yn cael eu hatgynhyrchu ar gyfer y DU, fel nad yw busnesau a defnyddwyr yn colli gafael ar y marchnadoedd hyn wrth ymadael. Er mai dyna fwriad Llywodraeth y DU, nid yw'r pwerau a roddir i Weinidogion yn y Bil yn gyfyngedig i atgynhyrchu'r cytundebau hynny cyn belled â phosibl; yr hyn ydynt, yn syml, yw pwerau i ymgymryd â chytundebau masnach â gwledydd y mae gan yr UE gytundebau o'r fathâ hwy ar hyn o bryd. Atgyfnerthir hyn yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, sy'n datgan efallai y bydd angen diwygio testun cytundebau blaenorol yr UE yn sylweddol hefyd wrth geisio trefnu cytundebau masnach.

**49.** Os caiff cytundebau eu diwygio'n sylweddol yna gellid gweithredu'r agweddau ar y diwygiadau hyn nad ydynt yn dariffau gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir gan Gymal 2 a dim ond i'r weithdrefn negyddol y byddai'r rheoliadau hynny'n ddarostyngedig.

## CASGLIAD

---

**Casgliad 7.** Credwn y dylai rheoliadau o'r fath sy'n debygol o fod yn rhai pwysig iawn, fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol, neu, os caiff dull siftio ei sefydlu gan y Cynulliad ar gyfer Offerynnau Statudol yr Undeb Ewropeaidd, dylai rheoliadau o dan Gymal 2 fod yn ddarostyngedig i'r broses siftio.

---

## Ein barn ni ar roi cydsyniad deddfwriaethol

**50.** Yn seiliedig ar ein casgliadau uchod, a'r safbwynt rydym wedi ei fabwysiadu mewn perthynas â Bil yr UE (Ymadael), rydym yn gwneud yr argymhelliad canlynol:

## ARGYMHELLIAD

---

**Argymhelliad 1.** Ni ddylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad deddfwriaethol i ddarpariaethau'r Bil Masnach a nodwyd fel rhai sydd angen cydsyniad y Cynulliad ar hyn o bryd.

---

**51.** Pe bai'r Bil Masnach yn cael ei ddiwygio mewn cyfnod dilynol yn ystod proses graffu'r Senedd, yna byddwn yn ailystyried yr argymhelliad hwn.

## 2. Y Bil Masnach: Materion eraill a nodwyd

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn disgrifio rhai o'r materion a nodwyd gennym mewn rhannau o'r Bil nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad arnynt, ond sy'n effeithio ar feysydd cymhwysedd datganoledig.

### 2.1. Yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach

**52.** Mae Rhan 3 o'r Bil Masnach yn sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach ('yr Awdurdod') a fyddai'n gyfrifol am roi cyngor, cefnogaeth a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn anghydfodau masnach a datrysiadau masnach.

**53.** Mae'r Bil Trethiant (Masnach Trawsffiniol) yn rhoi pwerau i'r Awdurdod ymchwilio i anghydfodau masnach honedig fel dympio nwyddau ar farchnadoedd y DU, a gwneud argymhellion ynghylch eu datrysiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**54.** Mae Llywodraethau Cymru ac Alban wedi ceisio diwygio'r Bil er mwyn caniatáu i'r Gweinidogion datganoledig benodi aelodau anweithredol i fwrdd yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach.

**55.** Yn ystod trafodion y Pwyllgor Bil Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin, dywedodd y Gweinidog dros Bolisi Masnach, y Gwir Anrhydeddus Greg Hands AS:

"Amendments 23 and 38 to 41 on the devolved Administrations, industry and other stakeholders risk directly undermining the TRA's independence, impartiality and expertise by allowing appointees who are beholden, or perceived to be beholden, to the groups whose interests they represent. Those appointed members could be at risk of making decisions based on vested interests, rather than on behalf of the whole UK economy. They could undermine the TRA's expertise by allowing its non-executive members to be appointed based on the clout of their stakeholder group, rather than on merit."

**56.** Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth sylwadau ar hyn:

"I don't believe that somebody appointed to the TRA who recognises the challenges of the Welsh economy will necessarily be operating in a way akin to having vested interests. I think it's essential that the TRA has

individuals who are knowledgeable about the whole of the UK economy, and that could require people, or should require people, who are appointed by Welsh Ministers. As I said earlier, that's the case with the BBC board. I don't see, necessarily, why this would be such a radical departure.”

## CASGLIAD

---

**Casgliad 8.** Rydym yn bwriadu ysgrifennu at y Gweinidog dros Bolisi Masnach i gael eglurhad o'i sylw y byddai'r penodiad arfaethedig o aelod anweithredol o'r bwrdd gan Weinidogion datganoledig yn tanseilio annibyniaeth yr Awdurdod.

---

## 2. 2. Casglu a rhannu data gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ('HMRC')

**57.** Mae Cymal 7 o'r Bil Masnach yn rhoi pwerau newydd i Gyllid a Thollau EM i gasglu gwybodaeth 'er mwyn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i ganfod busnesau sy'n allforio nwyddau a gwasanaethau'. Rhoddir pwerau i'r Trysorlys wneud rheoliadau mewn meysydd cymharol gul o ran: (a) y math o wybodaeth y gellir gwneud cais amdani, a (b) sut y gwneir y cais am wybodaeth. Cyn belled ag y defnyddir y pŵer o fewn y meysydd hyn, gellir defnyddio'r pŵer i wneud unrhyw beth y gall Deddf Seneddol ei wneud.

**58.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud bod y pŵer newydd hwn yn angenrheidiol i ddiwygio'r Deddfau Treth, er mwyn gofyn am wybodaeth. Y weithdrefn gadarnhaol sy'n gymwys os caiff Deddf Seneddol ei diwygio drwy ddefnyddio'r pŵer hwn. Fodd bynnag, os caiff Deddf y Cynulliad ei diwygio, y weithdrefn negyddol sy'n gymwys.

**59.** Mae Cymal 8 yn caniatáu i Gyllid a Thollau EM rannu gwybodaeth at ddibenion cyfyngedig, gan gynnwys 'hwyluso'r arfer gan gyrff o'i swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â masnach' â "chyrff eraill".

## CASGLIAD

---

**Casgliad 9.** Rydym yn bwriadu ysgrifennu at y Gweinidog dros Bolisi Masnach i ofyn am eglurhad ynghylch a ellid defnyddio'r pwerau o dan Cymal 7 o'r Bil i ddiwygio'r gyfraith dreth ddatganoledig. Hefyd i gael eglurder ynghylch y diffiniad o "gorff arall" yng Nghymal 8 ac a yw'n cynnwys Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus datganoledig, pe bai angen y wybodaeth hon arnynt.

---

### 2. 3. Diogelu Deddf Llywodraeth Cymru 2006

**60.** Nid yw'r Bil Masnach yn cynnwys gwaharddiad rhag defnyddio pwerau yn y Bil i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cynnwys cyfraith yr UE a gedwir.

**61.** O ran egwyddor gyfansoddiadol, dim ond drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu, mewn amgylchiadau cyfyngedig, gan Orchymyn Adran 109 (fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) y dylid diwygio sylfeini statudau datganoli yng Nghymru.

## CASGLIAD

---

**Casgliad 10.** Yn unol â'n hamcan ar gyfer Bil yr UE (Ymadael), credwn y dylid diwygio'r Bil Masnach i nodi na ellir defnyddio'r pwerau y mae'n eu cynnig i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

---

### 2. 4. Diffiniad o gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud yn bennaf â masnach

**62.** Mae Cymal 2 (2) y Bil yn nodi pa fathau o gytundeb rhwng yr UE a thrydydd gwledydd a gaiff ei gynnwys gan y Bil. Mae'n nodi, at ddibenion y Bil, fod cytundeb masnach rhyngwladol yn golygu:

- Cytundeb masnach rydd, neu
- Cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud yn bennaf â masnach, ac eithrio cytundeb masnach rydd.

Mae'r diffiniad o 'gytundeb masnach rydd' yn un cymharol dynn gan ei fod wedi'i ddiffinio mewn perthynas â rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r

---



diffiniad o 'gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud yn bennaf â masnach' yn eang ei gwmpas.

**63.** Derbyniwyd hyn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a dywedodd:

"Yes, I think that's fair to say. I said earlier that we need a tighter definition because it is too all encompassing and too vague, too woolly."

## CASGLIAD

---

**Casgliad 11.** Nid yw'r diffiniad hwn o "gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud yn bennaf â masnach" yn glir. Nid yw'n glir pa fath o gytundeb fyddai'n cael ei gynnwys o fewn cwmpas y pwerau yn y Bil, neu y tu allan i'r pwerau hynny. Nid yw hyn yn ddymunol a dylid darparu mwy o eglurder yn ystod y cyfnod cynharaf. Dylai dinasyddion fod yn glir ynghylch cwmpas pwerau gweithredol, er mwyn eu galluogi i herio defnydd anghyfreithlon neu ormodol ohonynt.

---

## 2. 5. Darpariaeth machlud Cymal 2

**64.** Mae Cymal 2 o'r Bil Masnach yn cyfyngu ar yr amser pan ellir arfer pwerau o dan y cymal hwnnw.

**65.** O dan gymal 2, mae is-adran (8) (a) yn atal gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) ar ôl diwedd y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod ymadael.

**66.** Fodd bynnag, mae is-adran (8) (b) yn caniatáu ymestyn y cyfnod hwn am gyfnod pellach. Mae is-adran (9) yn cyfyngu hyn i estyniad o hyd at bum mlynedd ar y tro, ond gellir arfer y pŵer hwn yn ddi-ddiwedd.

**67.** Gall Gweinidogion y Goron ymestyn y cymal machlud os yw dau Dŷ'r Senedd yn cymeradwyo rheoliadau drafft a gyflwynir gan Weinidogion y Goron.

**68.** Ni roddir y pŵer i ymestyn y cymal machlud i Weinidogion Datganoledig er y byddai'n cael ei gwmpasu gan unrhyw estyniad y gwneir cais amdano gan Weinidogion y DU ac a roddir iddynt.

**69.** Ni fyddai gan y Cynulliad rôl ffurfiol wrth graffu ar ymestyn y pwerau hyn.

**70.** Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi cynnig gwelliant a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gael eu cydsyniad hwy cyn ceisio ymestyn y pwerau hyn.

**71.** Ymatebodd y Gweinidog dros Bolisi Masnach i'r gwelliant hwn mewn gwrandawriad Pwyllgor Bil Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin. Mewn perthynas â'r gwelliant arfaethedig i'r cymal machlud, dywedodd y Gweinidog:

"[...] I do not think it necessary for us to write that obligation into the Bill. Of course, we would continue to engage should we need to extend the clause beyond its sunset five years after exit day."

## CASGLIAD

---

**Casgliad 12.** Mae rheoli'r pwerau o dan gymal machlud Cymal 2 y Bil Masnach a roddir i Weinidogion Cymru yn gwestiwn mwy priodol i'r Cynulliad. O ganlyniad, ein dewis ni yw gweld y Bil Masnach yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad y Cynulliad cyn ymestyn y cyfnod o bum mlynedd, i'r graddau y mae'n ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru.

---

### 3. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**72.** Cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r Bil Masnach ei ailgyflwyno gan y Pwyllgor Busnes i dri o Bwyllgorau'r Cynulliad: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'n pwyllgor ni: y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

**73.** Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn bwriadu cyflwyno ei adroddiad ar wahân.

**74.** Nododd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y cyngor cyfreithiol ac mae o'r farn bod y prif faterion yn y Memorandwm yn ymwneud â phrosesau a materion cyfansoddiadol, yn hytrach na pholisi masnach. O ganlyniad, cytunodd aelodau'r pwyllgor i ildio i'r Pwyllgor Materion Allanol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.